Llef (Deus Salutis)

1. O! Iesu mawr, rho d'anian bur
I eiddil gwan mewn, anial dir,
I'w nerthu drwy'r holl rwystrau sy
Ar ddyrys daith i'r Ganaan fry.

2. Pob gras sydd yn yr Eglwys fawr,
Fry yn y nef, neu ar y llawr,
Caf feddu oll, eu meddu'n un,
Wrth feddu d'annian Di dy Hun.

3. Mi lyna'n dawel wrth dy draed,
Mi ganaf am rinweddau'r gwaed,
Mi garia'r groes, mi nofia'r don,
Ond cael dy anian dan fy mron.